3.53

# CAN LECSIWN 1910.

POB Cymro dewr ei fynwes,
Pob Cardi brwd ei fron,
Yn unol fyth a'n hanes
Awn oll i'r gad yn llon
Fe ddaeth y flwyddyn llynedd
A'r *Pension* yn ei chol;
Er gwaetha'r Tori taerwedd,
Ni throir y cloc yn ol.

*Chorus*—Ni throir y cloc yn ol,
Ni throir y cloc yn ol,
Rhoi physig wneir i Ffosset,
Pan ddelo dydd y Poll.

Yn deg gofyna'r *Budget*,
Gan gyfoeth wneud ei ran;
Hoffusach yw gan Ffosset,
R'oi toll ar fara'r gwan.
Ond Ow! i gylla egwan,
Nid llawer iawn o drét
Yw bara rhyg y German
A darn o gig hen glet.

*Chorus*—Nid llawer iawn o dret, &c.

Os hedd a llwydd a geisiwch
Ag amser gwell yn stor;
Dros Vôn i gyd pleidleiswch
Dros Asquith a Llwyd Sior.
Na thwyller neb drwy weniaith
Y Tori ffals a ffol;
Trwy haeddiant hir wasanaeth,
Aiff Vôn i'w sedd yn ol.

*Chorus*—Aiff Vôn i'w sedd yn ol,
Aiff Vôn i'w sedd yn ol,
I ben a phwyso Ffosset
Down ninau ddydd y Pol.

*Argraffwyd a Chyhoeddwyd gan J. D. Lewis,*
*Gomerian Press, Llandyssul.*

X205208516